**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **1 Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Cynghorydd Robert Wood** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, N.Goldup-John, W.F.Griffiths, S.Grimshaw, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, C.Jordan, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, R.Mizen, K.Morris, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, C.Phillips, S.Pursey, S.Rahaman, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.D.Richards, P.Rogers, M.Spooner, D.Thomas, S.Thomas, D.Whitelock, L.Williams a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, C.Griffiths, K.Jones, M.Shaw, A.Thomas, A.Thomas, A.Thomas, R.Turner, S.Ferrell, H.Jones a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | N.Hurford |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Gyda thristwch mawr cyhoeddodd y Maer farwolaeth ddiweddar Clare Drakeford, gwraig Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford. Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

Gwahoddodd y Maer Arweinydd y Cyngor i roi datganiad. Nododd yr Arweinydd fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais am £17.7 miliwn o Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Esboniodd sut byddai'r cyllid yn caniatáu i Gwm Nedd gael ei sefydlu fel cyrchfan treftadaeth ac amgylchedd naturiol mawr i ymwelwyr.

Llongyfarchwyd staff ar y gwaith a wnaed i gyflwyno'r cais llwyddiannus.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganiadau a dderbyniwyd:

Y Cyng. M Crowley: Cysylltiad personol ag Eitem 7 ar yr agenda (Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 5. Y PWYLLGOR SAFONAU - PENODI AELODAU ANNIBYNNOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad a oedd yn awdurdodi penodi'r Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo penodi'r Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 6. NEWIDIADAU I AELODAETH Y PWYLLGOR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad a oedd yn awdurdodi newidiadau i ddyrannu seddi ar bwyllgorau cynghorau a chyrff allanol i'r grwpiau gwleidyddol fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWYR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (TUDALENNAU 13 - 64)**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Dai a Diogelwch Cymunedol a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yr adroddiad yn lle Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd.

Nododd aelodau fod yr adroddiad yn edrych ar y gorffennol a bod sefyllfa'r gwasanaeth ar hyn o bryd ychydig yn wahanol i'r sefyllfa a disgrifiwyd yn yr adroddiad, a bod argyfwng ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar y gwaith gwych a wnaed drwy gydol y pandemig, gan fod syniadau newydd wedi cyflawni gwelliannau go iawn mewn rhai meysydd gwasanaeth.

Holodd yr aelodau am y model ymyrryd mewn argyfwng ar gyfer Iechyd Meddwl y cyfeiriwyd ato ar dudalen 31, a'r gwaith parhaus mewn perthynas â'r 'rhestr wirio atgyfeirio' gan ei bod yn amlwg bod hyn bellach yn sefyllfa ddiffygdalu ar gyfer y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Esboniwyd y materion ynghylch y trefniadau 'drws blaen' iechyd meddwl, gan fod y pwynt mynediad unigol yn fodel meddygol ac yn waith ar y gweill er mwyn ei wneud yn fwy addas at y diben.

Nodwyd bod y cyngor yn gweld cynnydd yn y galw am atgyfeiriadau iechyd meddwl gan y gymuned, sy'n achosi pwysau sylweddol ar adnoddau a'r gyllideb, ac adroddir am hyn  i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Craffu Tai a Diogelwch Cymunedol a Bwrdd y Cabinet maes o law.

Mynegodd aelodau bryderon bod toriadau i wasanaethau ysbyty yn cael effaith uniongyrchol ar y cyngor, a mynegwyd yr angen cryf i fynegi i'r Bwrdd Iechyd y gofyniad brys i wella gwasanaethau mewn perthynas ag iechyd meddwl, yn ogystal â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

**PENDERFYNWYD:** Nodi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

8. **HYSBYSIAD O GYNNIG DAN ADRAN 10 RHAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Hysbysiadau o Gynnig.

9. **<u>CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 RHEOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR</u>**

Gwahoddodd y Maer y Cynghorydd Clement Williams i ofyn cwestiwn, a gyflwynwyd dan Reol 9.2 Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

Gofynnodd y Cyng. Clement Williams,

"Mae ein Grŵp Llafur o’r farn nad yw'r Cynigion Cyllideb sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Nid oes unrhyw dablau incwm a gwariant ac rydym yn pryderu bod dogfennaeth y gyllideb yn sylfaenol iawn ac yn brin o fanylion manwl.

Yn ystod cyfarfod craffu'r Cabinet mynegodd y Grŵp Llafur bryderon am y diffyg manylion, a chawsant ein sicrhau gan Swyddogion y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei hychwanegu a'i hanfon gyda'r ddogfen ymgynghori. Nid yw hyn wedi digwydd.

**Felly gofynnwn y cwestiwn canlynol: Gan fod yr ymgynghoriad eisoes wedi dechrau ac yn dod i ben ar 10 Chwefror, dylai'r cyngor ddarparu a rhyddhau'r wybodaeth hon erbyn diwedd y flwyddyn fel y gall preswylwyr sy'n ymateb i'r ymgynghoriad gael cyfle i ddweud eu dweud ar yr hyn y mae'r gyllideb yn ei golygu i'w gwasanaethau."**

Ymatebodd y Cyng. Simon Knoyle (Aelod y Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Chyfiawnder Cymdeithasol) a nododd fod 'fideo esbonio'r gyllideb' wedi cael ei gynhyrchu a'i lanlwytho ar wefan y cyngor, a'i fod wedi cael ei hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ac mae copi caled hefyd yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu.

Nododd fod sesiynau briffio cyllidebol wyneb yn wyneb a hybrid yn parhau o hyd fel rhan o'r cynllun cyfathrebiadau, a'u bod wedi cael eu rhannu ag aelodau'r pwyllgor craffu. Adroddodd y Cabinet fod yr adroddiad ar 19 Ionawr 2023 yn dangos cyllideb gytbwys, y mae'n ofynnol i'r cyngor ei chyhoeddi yn ôl y gyfraith, sy'n ffurfio sylfaen y ddogfen ymgynghori, ynghyd â dadansoddiad manwl o'r risgiau mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb arfaethedig. Mae'r dogfennau hyn hefyd wedi cael eu cyflwyno i bob pwyllgor craffu er mwyn caniatáu ar gyfer cymaint o gyfranogaeth aelodau â phosib.

Ymatebodd y Cynghorydd Clement Williams gyda phryderon am gymorthdaliadau a ffioedd a thaliadau sy'n benodol i'r gyllideb, nad oedd yn meddwl eu bod wedi'u cynnwys yn fanwl yn nogfennaeth

ymgynghori'r gyllideb. Pwysleisiodd y pryder ynghylch y diffyg manylion a sut mae dogfennaeth y gyllideb yn cyfeirio at benderfyniadau dirprwyedig mewn perthynas â ffioedd a thaliadau.

Eglurodd y Maer y broses ar gyfer gofyn cwestiwn dan reol 9.2 a daeth â'r cwestiynau i ben.

10. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**